

Ysgolion Cynradd Dalgylch Llangefni

# Llawlyfr Rhieni



## Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru



## ***Deall beth yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a beth mae'n ei wneud?***

Mae'r Fframwaith yn nodi canlyniadau disgwyliedig blynyddol clir ym maes llythrennedd a rhifedd i bob dysgwr rhwng 5 a 14 oed. Ceir disgrifiadau manwl o beth mae disgwyl i blentyn allu ei wneud ar flwyddyn arbennig yn ei addysg gynradd ac uwchradd, o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9. Bydd ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r Fframwaith i sicrhau bod y broses o addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd wedi'i hymgorffori ym mhob pwnc ar draws y cwricwlwm yn hytrach na'i bod yn canolbwyntio ar wersi Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yn unig. Y nôd gan Lywodraeth Cymru yw codi safonau llythrennedd a rhifedd yn genedlaethol. Bydd y Fframwaith yn caniatáu i bob athro fonitro cynnydd disgyblion o gymharu â disgwyliaid o flwyddyn i flwyddyn. Disgwylir i ysgolion adrodd yn flynyddol i rieni a gofalwyr ar gynnydd a chryfderau disgyblion unigol ac ar y meysydd y mae angen rhagor o gymorth arnynt o ran llythrennedd a rhifedd fel rhan o'r adroddiad blynyddol. Bydd yr adroddiadau'n cychwyn o Fedi 2014.

## ***Beth yw'r Profion Cenedlaethol?***

*Cafodd pob dysgwr ym mlynyddoedd 2 hyd at 9 eu hasesu gan ddefnyddio'r profion cenedlaethol am y tro cyntaf ym mis Mai 2013 a chafodd pob rhiant wybodaeth am sgôr ac oedran darllen a rhifedd eu plant. Bydd y disgyblion yn sefyll profion darllen Cymraeg a Saesneg ac eleni, am y tro cyntaf, bydd dau brawf rhifedd – un prawf ar waith rhif ac un ar ddatrys problemau mathemategol. Bydd yr ysgol yn defnyddio'r canlyniadau hyn yn rhannol wrth benderfynu a oes angen rhagor o gymorth ar blentyn mewn rhyw faes arbennig.*

*Bydd y profion darllen a rhifedd cenedlaethol yn cael eu cynnal eto eleni **rhwng 7ed a 13eg o Fai 2014.***

***Pe baech yn dymuno cael mwy o wybodaeth am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ewch i:***

***<http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=cy>***



Safwe Gymraeg

## Pam fod angen y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

Casglwyd tystiolaeth eang a oedd yn dangos fod angen i Gymru wella'i lefelau llythrennedd a rhifedd ar draws y boblogaeth:

- ymchwil ym maes cyflogwyr
- adroddiadau arolygon Estyn
- asesiadau diwedd cyfnod allweddol gan athrawon
- canlyniadau PISA

## Beth yw LLYTHRENNEDD?

Ystyr llythrennedd yw defnyddio sgiliau iaith mewn gweithgareddau bob dydd yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae llythrennedd yn disgrifio cyfres o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu mae eu hangen i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas. Mae'n golygu defnyddio sgiliau llythrennedd a gwybod sut i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg.

## Beth yw RHIFEDD?

Mae rhifedd yn golygu defnyddio sgiliau mathemategol mewn gweithgareddau bob dydd - yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae rhifedd yn disgrifio'r gyfres o sgiliau y mae eu hangen i fynd i'r afael â phroblemau'r byd go iawn mewn amryw o sefyllfaoedd.

## Beth yw pwrpas y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

Ei bwrpas yw disgrifio'n fanwl gywir y disgwyliadau cenedlaethol blynyddol ar gyfer llythrennedd a rhifedd sydd ar ddisgyblion 5 i 14 oed (o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 9 ) h.y. beth mae disgwyl rhaid i ddisgyblion ei ddysgu. Bwriad arall yw i helpu athrawon i adnabod a chynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm h.y. beth sy'n rhaid iddynt ei addysgu a'i asesu. Mae'r Fframwaith i fod o gymorth wrth i athrawon benderfynu ar gynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Dylai fod o gymorth i athrawon lunio adroddiadau blynyddol i rieni/gofalwyr yn seiliedig ar asesiad athrawon, fel bod ganddynt ddarlun clir o gynnydd y disgybl a beth yw'r camau nesaf.

## Sut bydd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn helpu ysgolion?

Dylai fod o gymorth drwy helpu athrawon i adnabod a chynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm h.y. ym mhob pwnc (ac nid yn unig yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn Mathemateg). Dylai helpu athrawon i asesu cynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd a llunio adroddiadau blynyddol i rieni/ofalwyr. Dylai roi gwybod i athrawon, disgyblion a rhieni/gofalwyr sut mae'r disgybl yn datblygu a beth yw eu camau nesaf.

## Pa ffurf sydd i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

Mae dwy gydran – llythrennedd a rhifedd – wedi eu rhannu fel hyn:

Llythrennedd	Rhifedd
1. llafaredd ar draws y cwricwlwm	1. datblygu ymresymu rhifyddol
2. darllen ar draws y cwricwlwm	2. defnyddio sgiliau rhif
3. ysgrifennu ar draws y cwricwlwm	3. defnyddio sgiliau mesur
	4. defnyddio sgiliau data

## Llythrennedd – strwythur

Llinyn	Elfennau	Agweddau
<b>LLAFAR</b> ar draws y cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad
		Gwranddo
		Cydweithio a thrafod
<b>DARLLEN</b> ar draws y cwricwlwm	Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen
	Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall
		Ymateb a dadansoddi
<b>YSGRIFENNU</b> ar draws y cwricwlwm	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, pwrpasau, darllenwyr
		Strwythur a threfn
	Ysgrifennu'n gywir	Iaith
		Llawysgrifen Cystrawen Atalnodi Sillafu

## Rhifedd – strwythur

Llinyn	Elfennau		
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	Cynrychioli a chyfathrebu	Adolygu
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig
	Amcangyfrif a gwirio	Rheoli arian	
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd	Amser	Tymheredd
	Arwynebedd a chyfaint Ongl a safle		
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data Cyflwyno a dadansoddi data Dehongli canlyniadau		

## Oes yna wahaniaeth yn y gydran Llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg?

**Yn syml na, does dim gwahaniaeth.**

Mae'r gydran llythrennedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n nhw'n debyg iawn. Mae'r disgwyliadau yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda rhai elfennau gwahanol yn y gydran llythrennedd Cymraeg (e.e. Treigladau).

## Ydy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer pob disgybl?

**Eto, yn syml ydy.**

Mae'r Fframwaith yn cynnwys pob disgybl, o'r flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 9. Disgwylir i bob disgybl wneud cynnydd yn unol â'i allu. Gall disgybl gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) fod yn gweithio'n îs na'r

disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn. Gall disgybl mwy abl a thalentog fod yn gweithio uwchben disgwyliadau'r flwyddyn.

## **Ydy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn statudol?**

**YDY ...**

Mae wedi bod yn statudol o fis Medi 2013 h.y. rhaid athrawon ei gyflwyno a'i weithredu. Bydd asesu yn erbyn y FfLIRh yn ofyniad statudol o fis Medi 2014 h.y. rhaid i bob ysgol asesu cynnydd pob disgybl yn ôl gofynion y Fframwaith ac adrodd i rieni yn flynyddol wedi hynny.

## **Sut byddwn yn cael gwybod am gynnydd ein plentyn mewn llythrennedd a rhifedd?**

Mae'n debygol y bydd ysgolion yn llunio adroddiad ar gynnydd pob disgybl, ac yn ei gyflwyno i rieni/gofalwyr yn flynyddol. Bydd yr adroddiad yn nodi cryfderau'r disgybl a beth sydd angen ei ddatblygu mewn llythrennedd a rhifedd. Bydd y wybodaeth yma wedi ei chasglu ar draws yr holl bynciau ar draws y cwricwlwm.

## **Beth am y Profion Darllen a Rhifedd?**

Yn ogystal â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol bydd Profion Darllen a Phroffion Rhifedd cenedlaethol yn flynyddol (ym mis Mai – yr wythnos Mai 7fed-Mai 14) ar gyfer pob disgybl ym mhob blwyddyn o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9. Bydd ysgolion yn adrodd i rieni ar ganlyniadau'r Profion hyn yn flynyddol wedi hyn a bydd y wybodaeth yn cael ei chasglu yn genedlaethol.

Gobeithiwn fod yr ychydig wybodaeth yma yn egluro'r hyn yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i chi. Os am wybod mwy, cysylltwch â Phennaeth yr ysgol.